# DATGANIAD O'R RHESYMAU

**Gorchymyn Cydgrynhoi Sir Gaerfyrddin (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd)**

**(Amrywiad Rhif 6) 2025**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (“y Cyngor”) yn cynnig cyflwyno codi tâl am barcio mewn meysydd parcio penodol oddi ar y stryd sydd ar hyn o bryd yn rhad ac am ddim. Mae'r Datganiad o'r Rhesymau hwn yn amlinellu'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig.

1. **Cynaliadwyedd Ariannol ac Adennill Costau**

   - Mae'r Cyngor yn wynebu costau sylweddol a pharhaus wrth gynnal meysydd parcio oddi ar y stryd, gan gynnwys gwaith atgyweirio arwyneb, goleuadau, camau gorfodi, glanhau ac ardrethi busnes.
   - Bydd cyflwyno tâl am barcio yn galluogi'r Cyngor i adennill cyfran o'r costau hyn, gan sicrhau hyfywedd hirdymor seilwaith parcio heb roi pwysau gormodol ar refeniw cyffredinol y dreth gyngor.

2. **Tegwch a Chysondeb ar draws y Sir**

   - Mae sawl tref yn Sir Gaerfyrddin eisoes yn gweithredu cynlluniau parcio am dâl. Mae cyflwyno tâl am barcio mewn meysydd parcio nad ydynt yn codi tâl ar hyn o bryd yn hyrwyddo cysondeb a thegwch ar draws cymunedau.
   - Mae'r dull hwn hefyd yn sicrhau bod pob defnyddiwr yn cyfrannu'n deg at gynnal a chadw cyfleusterau parcio, waeth beth fo'u lleoliad.

3. **Rheoli Traffig a Throsiant Gwell**

   - Mae parcio am ddim yn aml yn arwain at ddefnydd arhosiad hir a llai o drosiant, gan gyfyngu ar fynediad ar gyfer ymwelwyr a siopwyr byrdymor.
   - Mae codi tâl cymedrol yn annog defnydd mwy effeithlon o leoedd parcio, gan gynyddu'r lleoedd sydd ar gael a chefnogi busnesau lleol drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr.

4. **Nodau Trafnidiaeth Gynaliadwy ac Amgylcheddol**

   - Mae cyflwyno tâl yn cyd-fynd ag amcanion cynaliadwyedd y Cyngor trwy annog y defnydd o ddulliau trafnidiaeth amgen fel cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.
   - Mae llai o ddibyniaeth ar gerbydau preifat yn cyfrannu at allyriadau is a gwell ansawdd aer.

5. **Ailfuddsoddi mewn Seilwaith Lleol**

- Bydd refeniw dros ben sy'n cael ei gynhyrchu trwy dalu am barcio yn cael ei ailfuddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth lleol, gwelliannau i lecynnau cyhoeddus, a gwasanaethau parcio gwell.
- Mae hyn yn cefnogi nodau adfywio a datblygu economaidd ehangach ar draws Sir Gaerfyrddin.